# 'Stenaid o hen weisg 'Stiniog

Gan **Steffan ab Owain**

FEL Y mwyafrif o bethau sy'n ymwneud â hanes Blaenau Ffestiniog anodd iawn fyddai sôn am ei hargraffwyr a'i gweisg heb ddweud gair am ddatblygiad a thwf y dref ei hun. Felly, dyma gip ar y twf hwn gan ddechrau gyda phoblogaeth plwyf Ffestiniog yn ystod y cyfnod 1801–1901. Dyma ddetholiad o boblogaeth blynyddoedd y cyfrifiad:
1801 — 732; 1841 — 3,138; 1861 — 4,553; 1871 — 8,055; 1881 — 11,234; 1901 — 11,434.'

Â phrif fod angen dweud, mai'r alwad am weithwyr yn chwareli llechi — yn ogystal ag agor rhai o'r newydd — a achosodd i'r boblogaeth chwyddo cymaint yn ystod y cyfnod.

Wrth reswm, bu'n rhaid darparu ar gyfer anghenion y gymdeithas newydd. Ac o ganlyniad, codwyd cannoedd o dai newydd, a rhai degau o stordai, a siopau. Erbyn dechrau'r 1870 roeddynt wedi adeiladu nifer sylweddol o gapeli yma, tair eglwys newydd, amryw o ysgolion dyddiol, ysbyty, neuadd gyhoeddus a marchnadfa. Ac amryw o dafarnau a thai bwyta wedi eu hagor hwnt ac yma yn y dref.

Yn wir, yn ôl *Cyfarwyddiadur Worrall*, roedd yn y Blaenau oddeutu diwedd y flwyddyn 1872 amrywiaeth fawr o fusnesau. Ar wahân i'r diwydiant llechi a'r diwydiant amaethyddol ar gyrrion y dref ifanc, ceid dewis da o fasnach o fewn y dref ei hun — busnesau megis pobyddion, cigyddion, groseriaid, gwerthwyr ffrwythau, gwerthwyr blawd, a.y.b. Ymhlith y siopau eraill a geid yma roedd sipau dillad (o bob math), sipau llestri, fferyllwyr, gwerthwyr nwyddau haearn, ac ati. Yr adeg honno roedd yn y dref gryn dipyn o gryddion, teilwriaid, gofaint, seiri coed a seiri meini, yn ogystal ag un neu ddau o blymwyr, paentwyr a gwydrwyr. Yng nghanol y Blaenau ceid dau fanc, yn ogystal â dwy orsaf ar gyfer y rheilffyrdd cul. Ceid hefyd swyddfa bost a swyddfa yswiriant yno. Ar ochr ddwyreiniol y dref codwyd gwaith nwy, ac i lawr yn ardal Tanygrisiau, ceid ymhlith nifer o bethau eraill, melin wlân a ffowndri haearn.

Yn ogystal â'r rhai a enwyd eisoes ceid y canlynol hefyd: tri llawfeddyg, un cyfreithiwr, un ocsiwniar, un barbwr proffesiyno, un ffotograffydd, un fframiwr lluniau — ac o fwy o ddiddordeb i'r darllenwyr efallai — pedwar gwerthwr llyfrau ac un wasg.

Ond dirywio'n raddol (a gwella'n ysbeidiol) a wnaeth y diwydiant llechi yn y ganrif yma ac o'r herwydd, effeithiodd ar y dref a'i phobl — a'r effaith yn dal hyd heddiw.

* * * *

GWASG a agorwyd yn Ionawr 1872 gan ddau ŵr ifanc â'r cyfenwau Jones ac Evans fe gredir oedd gwasg gyntaf tref Blaenau Ffestiniog. Sut bynnag, nid yw'r gred yn gywir, oherwydd bu o leiaf un wasg ar waith yn y dref cyn dyddiau'r wasg yma. Enw'r wasg honno oedd 'D. J. Thomas, Argraffydd & C. Four Crosses, Ffestiniog'. Tybiwn mai rywdro yn y flwyddyn 1869 y sefydlwyd hon.

Y dystiolaeth parthed hyn, er ychydig yn simsan, yw'r ddwy gyfrol a argraffwyd yno yn 1869. Enw'r gyntaf yw *Y Traethiadur Gwyddorawl*, gan T. Taliesin Jones, ac enw'r ail yw *Dyddanydd yr Aelwyd*, gan Robert Hughes (Mynyddig). Hyd yn hyn, gallaf ddweud nad wyf wedi gweld affliw o ddim byd a gafodd ei argraffu yn 'Stiniog cyn y flwyddyn hon.

Ond, gan fod dyddiad arall i'w gael ar ail dudalen y llyfryn *Dyddanydd yr Aelwyd*, sef 1870 ar dudalen Y Cynnwys, mae'n rhaid i mi ofyn y cwestiwn hwn yma — ai *Y Traethiadur Fwyddorawl* oedd y gyfrol gyntaf i weld golau dydd yn hanes hen weisg 'Stiniog?

Yn ôl a welais, ychydig iawn a argraffwyd gan wasg D. J. Thomas yn 1870, ac er i'r flwyddyn ddilynol fod yn dipyn mwy cynhyrchiol iddo, ni chredaf i'r wasg argraffu un gair o dan enw 'D. J. Thomas, Fourcrosses' byth wedyn. Awgrymaf fod y busnes wedi dirwyn i ben rywdro yn y flwyddyn 1871, ac o bosib', ei fod wedi ei osod ar y farchnad ac i Jones ac Evans ei brynu ganddo.

Beth bynnag am hynny, beth am gael golwg sydyn ar ychydig enghreifftiau eraill o'r mân-lyfrau, taflenni a thocynnau a argraffwyd gan y wasg pan oedd hi ym meddiant D. J. Thomas: *Adfywiad Crefyddol*, gan Edward Davies, Dowlais (1870); *Y Lloffydd, sef Casgliad o Gyfansoddiadau Amrywiaethol o dan olygyddiaeth y Parch. T. J. Humphreys, Blaenau Ffestiniog* (1890); Tocyn 1/– 'Cyngerdd ymadawol R. C. Williams, Caernarvon (Enillydd Ysgoloriaeth leisiol a hanner can punt yng Nghaerfyrddin) ym Marchnadfa y Blaenau, Nos Iau, Ebrill 21, 1870'; *Trydyddarddeg adroddiad ar hugain cangen Beibl Gymdeithas chwarelau a chymmydogaeth Blaenau Ffestiniog am y flwyddyn 1870*, (1871); *Traethawd ar y pwysigrwydd i'r Gweithiwr iawn ddefnyddio ei ennillion*, (Buddugol yn ail Gystadleuaeth lenyddol Chwarel y Llechwedd 1870) gan John Evans, (1871); *America, (Gyda Railway Map o'r Unol Daleithiau a Canada). Tiroedd rhad i'w cael, a'r ffordd i'w meddiannu.* (1871).

* * * *

OND BETH am hanes D. J. Thomas ei hun. Credaf mai Daniel Jones Thomas oedd enw llawn yr argraffwr hwn a'i fod yn enedigol o Lerpwl. Hoffwn gael cadarnhad ai'r D. J. Thomas yma oedd yn argraffu yn Aberdâr yn yr 1860au. Yn ôl a ddarllenais, 'roedd gan un D. J. Thomas wasg yn 19 a 20 Heol Caerdydd, Aberdâr o tua'r flwyddyn 1861 hyd tua 1869. Bu'n argraffu *Y Gwyliedydd: Cofnodydd Misol Prif Symudiadau y Bedyddwyr Trwy'r Byd* yno am tua pedair blynedd. Yn wir, yr enw a roddodd ar ei argraffty yno oedd 'Swyddfa'r Gwyliaedydd'.

Bu ei wasg yn gysylltiedig ag amryw o gyhoeddiadau'r Bedyddwyr yn y De, e.e. yn ystod 1864 argraffwyd *Seren Gomer* a'r *Bedyddiwr* yn ei swyddfa, ac yn 1865 cyhoeddid *Y Winllan* yno ar gyfer — 'Plant Bedyddwyr y De'.

(I Dudalen 19)

---

(O Dudalen 17)

A beth sy'n cyfri amdano? Pam y gwanychu hwn mewn ffydd? Ateb Williams mewn dilyniant o emynau, tua diwedd traean cyntaf 'Y Môr o Wydr' ydi mai ei bechod, grym ei euogrwydd, sy'n tanseilio'r ymddiriedaeth yng Nghrist. Dyma rai penillion:

*Y mae ofn yn fy nghalon,*
*Gan mor lleied yw fy ngrym,*
*Rhag rhyw awr i'm temtasiynau*
*Creulon i fy ngwneud yn ddim:*
*Nid oes gryfder*
*Trwy fy ysbryd mewn un man.*

*Mae dyfnderoedd anghrediniaeth,*
*Wedi'm rhoddi'n lleng a gwan,*
*Pechod yn fy ngwneud i ofni,*
*Ofni yn fy rhwystro i'r lan;*
*Gwna i mi gredu,*
*Dyma'm henaid wrth ei fodd.*

*Oll o mewn nid oes ond t'wyllwch,*
*Oll o mewn nid oes ond poen,*
*Rhyw ddyeithrwch oer di-gariad,*
*At y croeshoeliedig Oen;*
*O na roddit*
*I mi, Arglwydd, dy fwynhau.*

'Rhyw ddyeithrwch oer di-gariad', sylwch; dyna gyfleu yn effeithiol yr ofn a'r pryder dwfn oedd yn gafael ar brydiau mewn rhai oedd *wedi* profi gwefr tröedigaeth. A dyma bennill arall:

*Weithiau bron yr wyf a chredu*
*Che's erioed effeithiol ras,*
*Credu bron mai fy mhechodau,*
*Yn y diwedd bia'r ma's;*
*Dwg fi Arglwydd,*
*Dwg fi o'r caethiwed hyn.*

Ac ni allaf ymatal rhag troi at y mynegiant mwyaf chwerw-drist o hyn, o bosibl, yn holl waith Williams:

*Y mae arnaf fil o ofnau*
*Ofnau mawrion o bob gradd,*
*Oll yn gwasgu gyda'u gilydd*
*Ar fy ysbryd bron fy lladd;*
*Nid oes gallu all gonewero,*
*Torf o elynion sydd yn un,*
*Congcro ofn, gelyn mwyaf,*
*Ond dy allu di dy hun.*

*Ofni'r wyf na's ce's faddeuant,*
*Ac na's caf faddeuant mwy,*
*Ofni'n fynych na che's olwg,*
*Etto ar dy farwol glwy';*
*Ofni bod fy meiau'n taro,*
*Yn erbyn iechydwriaeth rad,*
*Ac na chaiff fy enaid egwan,*
*Fyth ei olchi yn y gwa'd.*

. . . . . . .

*Nid oes awel fach yn dyfod,*
*Fyth o'r gogledd draw na'r de',*
*Nad yw yn fy ysbryd ofnog,*
*Yma'n fuan gael ei lle;*
*Nid oes gweddi, nid oes oedfa,*
*Nid oes cam ro'i ar y don,*
*Nad yw ofn yn teyrnasu*
*Yn ddirgelaidd tan fy mron.*

Ac o ystyried nad yw Anghrediniaeth *yn ddim ond un* o'r rhwystrau sydd ar y daith — heb sôn am demtasiynau, gwyriadau, amheuon, gau-athrawiaethau a sawl cyflwr ysbrydol difaol — hawdd gweld waith mor araf ac anodd ydi'r gwaith o *buro'r* credadun, o'i sancteiddio ar gyfer gogoniant.

* * * *

OND, fel y dwedwyd yn gynharach, nid yw'r daith heb ei chysuron a'i munudau ac oriau o lawenydd ac y mae, fel y medrid disgwyl, swm mawr o ganu Williams yn seinio'r nodau cysurus a buddugoliaethus hyn. Gellid dyfynnu llu o benillion o'r 'Môr o Wydr' ond mi fodlona i ar y diwedd fel hyn ar droi at un o'i emynau mwyaf rhyfeddol o:

*Mi dafla maich oddiar fy ngwar,*
*Wrth deimlo dwyfol loes,*
*Euogrwydd fel mynyddau'r byd,*
*Dry yn ganu wrth dy groes.*

*Os edrych wnaf i'r dwyrain draw,*
*Os edrych wnaf i'r de',*
*Yn mhlith y fu, neu yntau ddaw,*
*'D oes tebyg iddo fe.*

*Fe rodd ei ddwylo pur ar led,*
*Fe wisgodd goron ddrain;*
*Er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn*
*Fel hyfryd liain main.*

*Esgyn a wnaeth i entrych ne',*
*I eiriol dros y gwan;*
*Fe sugna f'enaid inau'n lan*
*I'w fynwes yn y man.*

*Ac yma caf fod gydag ef,*
*Pan el y byd ar dan,*
*Ac edrych yn ei hyfryd wedd,*
*Gan' harddach nag o'r bla'n.*

## Rhodd

*Pe carech gael copïau o Barddas, rhifynnau 1-3, 5 a 10 cysylltwch âr Parchedig Dafydd Wyn Wiliam, Llwyn Llinos, Bodedern, Môn (740858).*